



Ymateb y llywodraeth i ymgyngoriad y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR)

Ymateb i ymgynghoriad ar ddiwygio deddfwriaethol posibl a model
gweithredu arfaethedig yr NUAR i'r dyfodol i uchafu'r buddion i economi'r
DU

Mae'r ymateb hwn yn cael ei gyhoeddi ar 24 Hydref 2022

Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Comisiwn Geo-ofodol, pwyllgor arbenigol o
Swyddfa'r Cabinet.

Mae ar gael hefyd yn [gov.uk](https://www.gov.uk)

Cynnwys

Cynnwys	1
Rhagymadrodd a manylion cyswllt	2
Cwynion neu sylwadau	2
Cefndir	3
Crynodeb o ymatebwyr	4
Ymatebion i gwestiynau penodol	5
Adran 1: Yr achos dros NUAR	5
Adran 2: Aseu'r angen am ddeddfwriaeth	8
Adran 3: Cyrchu NUAR	11
Casgliad a chymau nesaf	13

Rhagymadrodd a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ar ôl ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori, Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol.

Bydd yn cwmpasu:

- y cefndir i'r adroddiad
- crynodeb o'r ymatebwyr i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godir yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori trwy gysylltu â'r Uned Darparu NUAR yn y cyfeiriad isod:

NUAR Delivery Unit (Uned darparu NUAR)

The Geospatial Commission (Y Comisiwn Geo-ofodol)

10 South Colonnade

Canary Wharf

E14 4PU

E-bost: nuar-futuremodel@cabinetoffice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn

<https://www.gov.uk/government/consultations/the-national-underground-asset-register-nuar>

Gellir gofyn am fersiynau fformat amgen o'r cyhoeddiad hwn o

nuar-futuremodel@cabinetoffice.gov.uk.

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â Swyddfa'r Cabinet yn y cyfeiriad uchod.

Cefndir

Cyhoeddodd y Comisiwn Geo-ofodol bapur ymgynghori cyhoeddus [‘Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol’](#) ar 7 Ebrill 2022. Gwahoddodd farn i ffurfio model gweithredu'r NUAR yn y dyfodol a dylai gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Cafodd yr ymgynghoriad ei rannu'n dair adran a gofynnodd gyfanswm o naw cwestiwn. Edrychodd yr adran gyntaf ar brofiadau presennol y rheini sy'n gweithio yn y sector sy'n rhannu/casglu data ynglŷn ag asedau tanddaearol. Roedd yr adran ganlynol yn ymwneud â'r angen posibl i ddeddfu a beth ddylai cwmpas y fath ddeddfwriaeth fod. Gofynnodd yr adran olaf un cwestiwn ynglŷn â'r mecanwaith cyllido posibl i gefnogi'r gwasanaeth parhaol.

Caeodd y cyfnod ymgynghori ar 2 Mehefin 2022 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys sut mae'r broses ymgynghori yn dylanwadu ar ddatblygiad ychwanegol o'r polisi yr ymgynghorwyd arno.

Mae crynodeb/papur ymgynghori yn yr iaith Gymraeg ar gael yn <https://www.gov.uk/government/consultations/the-national-underground-asset-register-nuar>

Crynodeb o ymatebwyr

Cafodd cyfanswm o 164 ymateb i'r papur ymgynghori eu derbyn a'u dadansoddi â'r mwyafrif (146) yn cael eu derbyn trwy safle'r arolwg ar-lein. Cafodd nifer fach (18) eu darparu trwy fformatau amgen megis ymatebion wedi'u cwblhau a anfonwyd i mewn trwy e-bost. Nid atebodd pob ymateb bob cwestiwn, felly bydd dadansoddiadau yn cael eu darparu ar gyfer pob cwestiwn.

Cynrychiolai ymatebwyr amrediad eang o grwpiau â buddiant gan gynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau cyfleustodau, syrfewyr, rheoleiddwyr a'r cyhoedd. Er bod y nifer o ymatebion ar draws yr holl randdeiliaid yn uchel, roedd meintiau sampl llai o fewn rhai grwpiau rhanddeiliaid sy'n golygu na ddylai ymatebion gael eu gweld yn gwbl gynhwysfawr / cynrychioladol ar bob cwestiwn. Mae dadansoddiad o'r ymatebwyr yn cael ei amlinellu isod:

Math o Ymatebwr	Cyfrif	%
Unigolyn	50	30%
Awdurdod Lleol	36	22%
Cwmni Cyfleustod	30	18%
Sefydliadau Eraill	48	29%
Cyfanswm	164	100%

I gefnogi'r ymgynghoriad, cynhaliodd y Comisiwn Geo-ofodol gyfres o weminarau â rhanddeiliaid perthnasol a'r cyhoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth ac i ateb cwestiynau am natur dechnegol y cwestiynau a ofynnwyd.

Mae'r tîm NUAR yn cynnal dialog rheolaidd ag adrannau eraill o'r llywodraeth, awdurdodau lleol, cwmnïau cyfleustodau, rheoleiddwyr ac arbenigwyr technegol perthnasol ynglŷn â cham adeiladu presennol y prosiect. Cymerwyd gofal i sicrhau nad yw'r trafodaethau hyn wedi effeithio heb fod angen ar gasgliadau'r ymgynghoriad.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Cafodd prif gorff yr ymgynghoriad ei rannu'n dair adran oedd â chyfanswm o 9 cwestiwn. Roedd pedwar cwestiwn yn cynnwys ymateb caeëdig (ie/na) tra gofynnodd y gweddill am wybodaeth benodol. Roedd pob un yn cynnwys blwch testun rhydd lle gallai ymatebwyr ehangu ymhellach ar eu safbwynt.

Adran 1: Yr achos dros NUAR

Pwrpas y cwestiynau yn adran 1 oedd casglu rhagor o wybodaeth am yr arfer presennol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y sector. Nid oedd yr adran hon yn uniongyrchol berthnasol i bob grŵp a chafodd rhai ymatebion eu gadael yn wag felly mae'r nifer o ymatebwyr ar yr adran hon yn is. Ymhellach, dangosodd nifer o atebion y gallai rhai ymatebwyr fod wedi camddehongli'r cwestiwn a gwnaethant ddarparu atebion oedd yn llai perthnasol i'r cwestiwn a ofynnwyd.

Mae'r Comisiwn Geo-ofodol wedi gweithio'n agos yn flaenorol â'r rheini yn y sector i ddeall eu profiad presennol a byddant yn parhau i sicrhau'r sylfaen dystiolaeth i gynorthwyo NUAR i aros mor gyfredol â phosibl.


C1: Tua faint mae'n ei gostio i'ch sefydliad ddarparu data ar leoliad asedau tanddaearol bob mis.

Pwrpas y cwestiwn hwn oedd deall sut mae perchnogion asedau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n amlinellu'r gofynion ynglŷn â rhannu data yn ymwneud ag asedau tanddaearol. Mae'n rhaid i berchnogion asedau drefnu bod eu data ar gael i gwmnïau neu asiantaethau penodol sy'n ymgymryd â gwaith o gwmpas rhwydwaith y priffyrdd (adnabyddir fel ymgymerydd statudol) am ddim.

Cafodd 44 o ymatebion eu darparu ar y cwestiwn hwn ag amrediad eang o gostau a graddau amrywiol o fanylder am gostau darparu data ar hyn o bryd i ateb y rhwymedigaeth hon. Er bod sensitifrwyddau masnachol ac ansawdd rhai o'r atebion yn golygu nad ydym yn gallu darparu dadansoddiad dibynadwy manwl o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, dangosodd darlun cyffredinol fod cwmnïau cyfleustodau mawr wedi adrodd rhai o'r costau uchaf ar gyfer rhannu data tra bod awdurdodau lleol wedi adrodd rhai o'r isaf. Dangosodd ymatebion hefyd fod nifer o gostau cudd yn gysylltiedig â hyn gan ddibynnu ar yr union systemau mae sefydliadau yn eu defnyddio i rannu'r data hyn.

C2: Tua faint o sefydliadau ydych chi'n cysylltu a nhw er mwyn cyrchu set ddata gyflawn o seilwaith tanddaearol ar gyfartaledd fesul prosiect?

Tua faint o sefydliadau ydych chi'n cysylltu a nhw er mwyn cyrchu set ddata gyflawn o seilwaith tanddaearol ar gyfartaledd fesul prosiect?




Er bod nifer gyfyngedig o ddarparwyr chwilio presennol sy'n cynnig gwasanaeth i reoli ymholiadau ynglŷn ag asedau tanddaearol mewn partneriaeth neu ar ran perchnogion asedau, mae'r cynigion hyn yn anghyflawn. Fel y cyfryw, mae angen i ymgwymerwyr statudol gysylltu â pherchnogion asedau perthnasol lluosog i gadarnhau cyfarpar tanddaearol mewn ardal benodol er mwyn cynorthwyo gweithio diogel.

Gofynnodd y cwestiwn hwn i ymgwymerwyr statudol am y broses hon a chafodd 75 ymateb eu darparu ag amrediad sylweddol o ymatebion, o gysylltu â 1-100 o sefydliadau. Mae gan gwmnïau brosesau mewnol amrywiol sy'n gallu cynnwys cofnodion ymgynghori a gynhaliwyd eisoes, cysylltu â ddarparwyr chwilio yn ogystal â chysylltu'n uniongyrchol â pherchnogion asedau. O'r dadansoddiad, cysylltodd y mwyafrif â llai na 7 sefydliad fesul prosiect oedd yn gyson i raddau helaeth ar draws mathau o sefydliadau.

C3: Tua pha mor hir (mewn oriau neu ddyddiau) ar gyfartaledd mae'n cymryd i dderbyn yr holl ddata ar leoliad y seilwaith tanddaearol sydd eu hangen arnoch gan berchnogion asedau yn dilyn y cais gwreiddiol.

Tua pha mor hir (mewn oriau neu ddyddiau) ar gyfartaledd mae'n cymryd i dderbyn yr holl ddata ar leoliad y seilwaith tanddaearol s...



Maint y sefydliad yn ôl nifer y gweithwyr

Cyn gynted â bod ymgwymerwyr statudol wedi gofyn am ddata gan y darparwyr amrywiol, mae'n rhaid iddynt aros i dderbyn y data hyn. Cafodd 67 ymateb eu darparu ar y cwestiwn hwn â swm sylweddol o amrywiaeth rhwng ymatebwyr. Edrychodd dadansoddiad o'r ymatebion hyn ar y profiadau gwahanol yn seiliedig ar faint sefydliad (wedi'i fesur gan y nifer o gyflogeion). Ar gyfartaledd, roedd rhaid i sefydliadau aros 4.7 diwrnod i dderbyn yr holl ddata sydd eu hangen arnynt. Roedd rhaid i sefydliadau mwy aros yr amser lleiaf i dderbyn data asedau tanddaearol ar gyfartaledd fesul prosiect. Profodd sefydliadau bach a chanolig yr amser hiraf i dderbyn y data hyn.

C4: Cyn gynted âui bod wedi'u derbyn, tua pha mor hir (mewn oriau neu ddyddiau) mae'n ei gymryd i brosesu'r data o'r ffynonellau amrywiol i fformat defnyddiol safonedig neu becyn gwybodaeth i'w ddefnyddio ar ddarn o waith.

Mae ymgwymerwyr statudol yn derbyn data gan berchnogion asedau ar adegau gwahanol ac mewn fformatau amrywiol oherwydd y prosesau unigol gan berchnogion asedau / cyfryngwyr. Er mwyn defnyddio'r data yn effeithiol, mae angen iddynt gael eu coladu a'u safoni. O'r 60 ymateb a ddarparwyd i'r cwestiwn hwn, yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i wneud hyn oedd 1.4 diwrnod - oedd yn gyson i raddau helaeth ar draws y rhan fwyaf o grwpiau. Cwmnïau llai oedd yr eithriad, yn cymryd bron dwy waith mor hir ar gyfartaledd o gymhau â chwmnïau mawr a chanolig.

Adran 2: Aseu'r angen am ddeddfwriaeth

Gofynnodd y pedwar cwestiwn nesaf i ymatebwyr am eu barn ar ddiwygio deddfwriaethol posibl.

C5: Ydych chi'n credu bod cyfranogaeth 100% yn gyflawnadwy heb ddeddfwriaeth?

Ymateb	Cyfrif	%
Ydw	34	21%
Nac ydw	117	71%
Gwag	13	8%
Cyfanswm	164	100%

Fe wnaethom ofyn y cwestiwn hwn i adnabod os credai ymatebwyr fod deddfwriaeth yn ofynnol er mwyn sicrhau bod yr holl berchnogion asedau yn cymryd rhan yn NUAR (hynny yw, yn cyfrannu eu data), gan sicrhau felly ei fod yn cynnwys yr holl ddata sydd eu hangen ar ddefnyddwyr, pan fydd eu hangen arnynt, i gwblhau eu dyletswyddau'n effeithiol ac yn ddiogel.

Barn y mwyafrif (71%) oedd na fyddai cyfranogaeth 100% yn gyflawnadwy heb ddeddfwriaeth (hynny yw, ymatebon nhw 'Na') Dangosodd dros draean o'r rheini a ymatebodd 'Na', na fyddai rhai sefydliadau heb ddeddfwriaeth yn darparu eu data'n wirfoddol. Datganodd rhai ymatebwyr na fyddent yn cymryd rhan oherwydd ymdrech a chost ganfyddedig yn gysylltiedig â darparu data'n wirfoddol. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys y ffaith fod rhai sefydliadau ar hyn o bryd yn cynhyrchu incwm trwy ddarparu'r data hyn i drydydd partïon neu fod ganddynt fusnesau masnachol ynglŷn a rhannu'r data hyn.

Teimlai tua hanner o'r ymatebwyr a atebodd 'Ie' (hynny yw, bod cyfranogaeth 100% yn gyflawnadwy heb ddeddfwriaeth) bod buddion disgwylidig NUAR yn ddigon o gymhelliad i annog perchnogion asedau i ddarparu eu data'n wirfoddol. Mynegodd cyfran lai (4 ymateb) nad oedd cyfranogaeth 100% yn angenrheidiol. Atebodd 5 ymateb ychwanegol 'ie' ei bod yn bosibl i gyflawni cyfranogaeth 100% heb ddeddfwriaeth ond gan nodi yn eu sylwadau y gallai deddfwriaeth fod yn fuddiol ac y dylai gael ei ddilyn o hyd.

Cafodd ei amlygu hefyd fod yr Alban wedi deddfu eisoes mewn ffordd debyg.

C6: I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai'r llywodraeth ofyn am ddata a gymerir i mewn i'r llwyfan fod yn gyson â'r model data?

Ymateb	Cyfrif	%
Cytuno'n gryf/ Cytuno	115	70%
Niwtral	15	9%
Anghytuno'n Gryf/ Anghytuno	23	14%
Gwag	11	7%
Cyfanswm	164	100%

Mae model data NUAR safonedig wedi cael ei greu. sy'n sicrhau bod data a gyrchir trwy'r llwyfan mewn fformat safonedig ac mae gwasanaeth trawsffurfio data yn cael ei ddarparu'n ganolog ar hyn o bryd fel rhan o'r cam darparu. Mae a yw a/ neu sut mae'r ddarpariaeth safonedig hon yn parhau yng ngham gweithredol NUAR yn y dyfodol eto i gael ei bennu. Fe wnaeth 70% o'r ymatebwyr gytuno neu gytuno'n gryf y dylai data a gymerir i mewn i lwyfan NUAR fod yn gyson â'r model data. Yn ogystal â hyn, nododd rhai ymatebwyr y buddion o gael data safonedig ar y llwyfan.

O'r rheini a gytunodd, gwnaeth rhai sylw ar sut y gallai'r model data gael ei weithredu. Roedd rhai ymatebwyr am weld perchnogion asedau yn cymryd rhan yn y dyluniad manyleb ac awgrymodd eraill fod ymagwedd gam wrth gam yn cael ei chymryd at gyflwyno'r model data i gynorthwyo cydymffurfiaeth.

Fe wnaeth 14% o ymatebwyr anghytuno neu anghytuno'n gryf fod data safonedig yn ofynnol. O'r rhain, roedd dau brif sylw: (a) oherwydd bod data yn cael eu storio mewn amrywiaeth o fformatau mae cost a gwaith cysylltiedig; neu (b) nid yw safonau data cyson yn angenrheidiol.

Gadawodd yr 16% oedd yn weddill o ymatebwyr y cwestiwn yn wag neu roeddent yn niwtral.

C7. Ydych chi'n cytuno y gallai fod yn fuddiol i ehangu'r achosion defnydd rhagnodedig ar gyfer NUAR yn y dyfodol?

Ymateb	Cyfrif	%
Ydw	123	75%
Nac ydw	26	16%
Gwag	15	9%
Cyfanswm	164	100%

Y rhesymau craidd ar gyfer darparu NUAR yw gwella effeithlonrwyddau mewn adeiladu a datblygu, lleihau tarfu a gwella diogelwch gweithwyr. Trwy ymgysylltu parhaol a rhanddeiliaid mae gwelliannau posibl eraill hefyd wedi cael eu nodi gan gynnwys cyflwyno band eang ffibr a phwyntiau gwefru cerbydau trydan, cyd-drefnu gweithfeydd stryd, ymateb argyfwng, cynllunio perygl llifogydd, cynllunio gwytnwch a chynhyrchu a dosbarthu ynni amgen.

Yn gyffredinol, roedd 75% o ymatebion yn gefnogol o ehangu yn y dyfodol y tu hwnt i'r achosion defnydd rhagnodedig cyfredol o NUAR. Gwnaeth lawer sylw ar y buddion o ehangu mynediad i uchafu gwerth y data a galluogi defnydd achosion ehangach. Yn eu sylwadau, nododd dros 40 o ymatebwyr achosion defnydd penodol lle gallai NUAR ychwanegu gwerth, megis cyd-drefnu gweithfeydd stryd, cynorthwyo mewn cynllunio prosiectau a chynorthwyo gweithredu hinsawdd.

Sylwodd tua thraean o'r rheini a ymatebodd 'Na', y byddent yn cefnogi ehangu posibl wedi i amcanion craidd NUAR gael eu darparu. Cafodd y teimlad hwn ei adleisio gan rai a ymatebodd 'Ie'.

Ar draws y ddau grŵp roedd rhai themâu cyffredin a gododd gan gynnwys pryderon am sensitifrwyddau masnachol y data a diogelwch y system pe byddai mynediad yn cael ei ehangu. Gofynnodd rhai ymatebion hefyd i berchnogion asedau gael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn ag ehangu mynediad.

C8. Oes gennych chi unrhyw farm am sut y dylai NUAR gael ei rhedeg cyn gynted â'i bod yn gwbl weithredol gan gynnwys statws a chylch gorchwyl y corff cyfrifol?

Ymateb	Cyfrif	%
Darparodd ymateb	123	75%
Gwag	41	25%
Cyfanswm	164	100%

Roedd ymatebion i gwestiwn 8 yn cwmpasu amrediad eang o bynciau yn cynnwys perchnogaeth o NUAR, mynediad, codi tâl, yn ogystal â sylwadau a barnau cyffredinol.

Datganodd pumed rhan o'r ymatebwyr y dylai NUAR gael ei rhedeg gan y Llywodraeth/corff sector cyhoeddus arall. Roedd hyn dair gwaith y nifer o ymatebwyr a nododd fod yn well ganddynt berchnogaeth breifat. Er y cafodd ymagweddau eraill eu nodi megis partneriaeth gyhoeddus/breifaf, roedd cyfanswm nifer yr ymatebion hyn lawer yn is.

Ar y pwnc o godi tâl a chyrru gwasanaeth y NUAR, mae'r rhain yn cael eu cwmpasu'n fanylach mewn cwestiynau eraill (C6 a C9) ond, teimlai 14% o ymatebwyr y dylai NUAR fod am ddim i'w gyrchu, o leiaf i rai partion. Cyfeiriwyd at gefnogaeth i fynediad agored i'r data, naill ai at ddibenion cloddio diogel neu fel arall hefyd mewn 9 ymateb.

Roedd nifer o sylwadau yn gysylltiedig i gwestiynau cynharach ar yr angen i sicrhau bod mynd i'r afael â gofynion masnachol a diogelwch yn parhau. Manylodd nifer o ymatebion hefyd ar gyfleoedd i NUAR weithio â'r farchnad ehangach i gynorthwyo darparu gwasanaethau a gwerth ychwanegol.

Adran 3: Cyrchu NUAR

C9. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai NUAR godi tâl ar;

- a. Perchnogion asedau
- b. Ymgymerywyr statudol
- c. Ddefnyddwyr at ddibenion anstatudol

Ymateb	Codi tâl ar Berchnogion Asedau	Codi tâl ar Ymgymerywyr Statudol	Codi tâl ar ddefnyddwyr Anstatudol
Cytuno'n Gryf/Cytuno	64 (39%)	62 (38%)	76 (46%)
Niwtral	30 (18%)	31 (19%)	31 (19%)
Anghytuno'n Gryf/Anghytuno	58 (35%)	59 (36%)	42 (26%)
Gwag	12 (7%)	12 (7%)	15 (9%)
Cyfanswm	164	164	164

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u rhannu'n gymharol gyfartal, â rhywfaint yn dewis o blaid codi tâl ar berchnogion asedau (39% o blaid, 35% yn erbyn) a chodi tâl ar ymgymerywyr statudol (38% o blaid, 36% yn erbyn). Roedd dewis ychydig yn gryfach ar gyfer codi tal at ddibenion anstatudol (46%). Nid oedd gan leiafrif nodedig (tua 20%) ddewis o blaid nac yn erbyn codi tâl ar unrhyw un o'r grwpiau a nodwyd.

Nododd y rheini oedd o blaid codi tâl ar berchnogion asedau y bydd buddion arfaethedig NUAR yn cael eu teimlo'n bennaf gan berchnogion asedau gan y byddant yn gweld effeithlonrwyddau mewn rhannu data ac ni fyddai angen iddynt reoli eu systemau unigol eu hunain mwyach i drefnu bod data ar gael at ddibenion statudol. Fel y cyfryw, meddylir y gellid codi ffi arnynt i gynorthwyo'r system. I'r gwrthwyneb, sylwodd ymatebwyr eraill y gallai cwmnïau cyfleustodau drosglwyddo'r gost o ddarparu eu data i ddefnyddwyr. Yn ogystal, argymhellodd nifer o ymatebion ymgysylltu â pherchnogion asedau cyn i unrhyw ffi gael ei gweithredu i sicrhau ei bod yn gymesur.

Yn yr un modd, nododd y rheini oedd o blaid codi tâl ar ymgymerywyr statudol am fynediad at ddata fod buddion disgwylidig NUAR yn nhermau arbedion amser disgwylidig ar gyfer cloddiadau yn darparu sail resymegol ar gyfer pam y gellid codi tâl ar ymgymerywyr statudol. Fodd bynnag, ar gyfer ymgymerywyr statudol, nododd rhai ymatebwyr fod deddfwriaeth bresennol yn darparu'r hawl i ymgymerywyr statudol gyrchu data ar asedau tanddaearol am ddim. Roedd pryderon o godi tâl arnynt, y byddai ymgymerywyr statudol naill ai'n mynd heibio i NUAR ac yn parhau i fynd yn uniongyrchol at berchnogion asedau am ddata ar asedau tanddaearol, a allai danseilio effeithlonrwyddau disgwylidig NUAR; neu byddent yn cyfyngu eu chwiliadau ar NUAR

er mwyn torri costau a fyddai'n cael canlyniadau dilynol ar gyfer cloddio diogel. Eto, pwysleisiodd rhai ymatebion y dylai hyn fod yn gymesur i'r arbedion disgwylidig.

Yn olaf, ar ddefnyddwyr at ddibenion anstatudol, sylwodd llawer o'r rheini a oedd o blaid codi tâl ar y defnyddwyr hyn ar y nifer o grwpiau y gellid codi tâl arnynt at ddibenion amrywiol a fyddai'n cwmpasu costau o ddarparu'r gwasanaeth NUAR. Nododd y rheini nad oedd o blaid codi tâl ar ddefnyddwyr anstatudol na fyddai'r refeniw a gynhrychir gan ddefnyddwyr anstatudol ar ei ben ei hun yn debygol o gwmpasu cost lawn y gwasanaeth. Yn ychwanegol, nododd rhai ymatebwyr y gellid edrych ar godi tâl ar ddefnyddwyr at ddibenion anstatudol fel ymdrech i dra-awdurdodi dros y farchnad a mygu arloesedd ar gyfer trydydd partiön.

Casgliad a chymau nesaf

Mae nifer ac amrywiaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi darparu mewnwelediadau buddiol i farn y rheini sy'n gweithio yn y sector asedau tanddaearol yn ogystal â phartïon eraill â buddiant.

Wedi adolygu'r holl ymatebion, gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- A. Adroddodd cwmnïau cyfleustodau mawr am rai o'r costau uchaf ar gyfer rhannu data ag ymgymerwyr statudol, tra yr adroddodd awdurdodau lleol am rai o'r isaf.
- B. Datganodd y rhan fwyaf o ymatebwyr ei bod yn cymryd sawl diwrnod yn dilyn y cais gwreiddiol i gyrchu'r data i dderbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt oddi wrth berchnogion asedau.
- C. Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod deddfwriaeth yn debygol o fod yn ofynnol i gyflawni cyfranogaeth 100%.
- D. Mae dewis a ffeirir i'r gronfa ddata sy'n cynnwys yr holl ddata i gael ei rheoli gan lywodraeth oherwydd risgiau masnachol a diogelwch sylweddol o gamddefnydd neu doriad unrhyw ddata, ond fod dealltwriaeth o rolau posibl i'r sector preifat mewn elfennau eraill;
- E. Nododd ymatebwyr gyfle posibl i godi tâl ar ddefnyddwyr anstatudol am fynediad at ddata NUAR, e.e. trosglwyddwyr / datblygwyr eiddo;
- F. Nid oes consensws ar bwy ddylai gyllido NUAR yn y cyfnod gweithredol ond mae cytundeb cyffredinol y dylai'r rheini sy'n cael budd o'r gwasanaeth gyfrannu.

Yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad hwn, mae rhagor o waith i ymgymryd ag ef:

- Datblygu fframwaith codi tâl sy'n cymryd y sylwadau a godwyd gan ymatebwyr i ystyriaeth;
- Ehangu parhaol o ddiwygio deddfwriaethol posibl;
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer y farchnad ehangach i wella'r gwasanaeth NUAR.

Fel rhan o'r gwaith ychwanegol hwn ar fodel gweithredu'r NUAR yn y dyfodol, mae'r Comisiwn Geo-odofol wedi ymrwymo i ymgysylltu'n barhaol â phartïon perthnasol i sicrhau bod mabwysiadu a gwerth y gwasanaeth yn cael eu huchafu. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy weithdai ychwanegol a sefydlu grŵp cynghorol newydd. Bydd y Comisiwn Geo-odofol hefyd yn rhannu diweddariadau polisi yn y dyfodol pan yn briodol ar gov.uk ac â phartïon perthnasol.

Yn olaf, mae'r Comisiwn yn diolch i bawb a gymerodd yr amser i ddarparu ymateb i'r ymgynghoriad, ac mae'n edrych ymlaen at eich cadw'n wybodus wrth i waith darparu'r NUAR fynd rhagddo.